# CYNGOR GWYNEDD

**ADRODDIAD I GYFARFOD CABINET CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 7 Mawrth 2017 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Ioan Thomas<br>Aelod Cabinet Tai, Gofal Cwsmer, Llyfrgelloedd, amddifadedd a chydraddoldeb |
| **Swyddog Cyswllt:** | Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | 01286 679468 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad Tai, Gofal Cwsmer, Llyfrgelloedd, amddifadedd a chydraddoldeb |

**1. CYFLWYNIAD**

1.1. Pwrpas yr adroddiad yma yw i'ch diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Tai, Gofal Cwsmer, Llyfrgelloedd, Amddifadedd a Chydraddoldeb. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yn y Cynllun Strategol; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion.

1.2 Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o'r timau rheoli perthnasol, oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r pwyllgor craffu.

1.3 Ar y cyfan, rwy'n fodlon gyda pherfformiad y mwyafrif o'r prosiectau a'r mesurau rwy'n gyfrifol amdanynt. Er mae ychydig o bryder am rai o fesurau Galw Gwynedd.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad

## 3. RHESYMAU DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

3.1 Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

## 4. PROSIECTAU'R CYNLLUN STRATEGOL

4.1 **Cydymdrechu yn erbyn Tlodi**
Ers i mi adrodd i chi tro diwethaf, mae'r gwaith o hyrwyddo sgiliau ymdopi gyda rheoli incwm y cartref a dyledion yn mynd rhagddo gyda digwyddiadau 'Call efo'r Geiniog' wedi'u cynnal. Yn ogystal, cynhaliwyd Sesiynau Galw Heibio Gwytnwch Digidol drwy'r sir mewn llyfrgelloedd, a threialu sesiynau mewn meddygfeydd ac archfarchnadoedd. Rwyf wedi cyfarfod gydag adrannau'r Cyngor er mwyn cael gwybodaeth bellach ynglŷn â sut mae eu gwaith yn cyfrannu tuag at ddeilliannau'r Strategaeth Trechu Tlodi. Yn dilyn y cyfarfodydd hynny, rwy'n ffyddiog bod rhaglenni o fewn y meysydd yn cael eu gwyro tuag at y cymunedau o angen sydd wedi'i hadnabod yn y strategaeth.

### 4.2 T9 - Strategaeth Cyflenwad Tai

4.2.1 Pwrpas y prosiect hwn yw gweithredu ein strategaeth i gynyddu'r cyflenwad ac amrywiaeth o dai er mwyn sicrhau fod ein cyflenwad o dai yn addas ar gyfer anghenion pobl Gwynedd. Bydd y prosiect yn arwain at ddatrysiadau gwahanol mewn gwahanol ardaloedd.

**4.2.2 Sefydlu Tai Fforddiadwy i drigolion Gwynedd mewn ardaloedd gwledig** - Mae'r gwaith o gyflwyno tri chais cynllunio yn mynd yn ei flaen gydag ymgynghoriad lleol ar gynllun Penygroes, sef y cynllun mwyaf aeddfed o'r tri. Targedwyd 2,000 o gartrefi gyda 112 o ymatebion wedi eu derbyn. Nododd 46 o ymatebwyr eu bod angen symud gyda gwahanol ddaliadaeth ar safle dan sylw ym Mhenygroes. Y bwriad yw cyflwyno adroddiad o'r canlyniadau i Gyngor Cymuned Llanllyfni, Cyngor Gwynedd a Grŵp Cynefin cyn diwedd Ionawr.

4.2.3 Bydd Grŵp Cynefin yn cynnal arolwg drwy'r Hwyluswyr Tai Gwledig yn ardaloedd Waunfawr, Llanuwchllyn a Bethesda dros y ddeufis nesaf gyda'r bwriad o gyflwyno ceisiadau am dai rhent canolraddol a thai fforddiadwy i'w prynu yn ddibynnol a chanlyniadau'r arolwg .Pe byddai'r tri chais cynllunio yn llwyddiannus, byddai hyd at 39 o gartrefi yn cael eu darparu ar draws Gwynedd.

4.2.4 Mae yn debyg bydd y model ariannol ar y ffurf bresennol yn dangos bod angen cymorth ariannol i gychwyn y model ac i uchafu'r elfen fforddiadwy. Bydd gwybodaeth am gynllun busnes Waunfawr yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor yn fuan. Mae Llywodraeth Cymru yn dangos diddordeb yn y model hwn ac yn awyddus i wneud cysylltiadau, Mae

trafodaethau eisoes wedi cychwyn i er mwyn adnabod opsiynau ynghyd a'r posibilrwydd o roi cymorth grant i gychwyn y fenter .

**4.2.5** **Tai gwag yn ôl i ddefnydd** - Bu i mi adrodd yn fy adroddiad diwethaf bod trafodaethau rhwng tîm tai gwag a Chymdeithas Tai Gogledd Cymru wedi cael eu cynnal. Byddent yn edrych ar ba adnoddau sydd ar gael gyda'r bwriad i ddarparu tai a chefnogaeth o bosib i bobl ddigartref.

**4.2.6** Ers y diweddariad uchod mae'n debygol na fydd Cymdeithas Tai Gogledd Cymru mewn sefyllfa i symud ymlaen gyda'r cynlluniau oherwydd eu sefyllfa ariannol bresennol. Fel ffordd ymlaen, awgrymir bod y Tîm Tai Gwag yn edrych ar yr opsiwn o ehangu gwaith y tîm. Posibilrwydd hefyd o ail gynnig i gymdeithasau tai eraill ond mae hyn yn uchelgeisiol. Hyderaf y byddaf yn gallu yn fy adroddiad nesaf amlinellu'r camau nesaf i'w cymryd.

**4.2.7** **Darpariaeth ar gyfer pobl di gartref** - Gwasanaeth Digartref yn edrych ar opsiynau o ddefnyddio eiddo gwag er mwyn cael model tai a chefnogaeth yn yr ardal. Mae'r uned ar hyn o bryd yn gwerthuso potensial un lleoliad yn Nolgellau ac rwyf wedi pwysleisio'r angen i ymgysylltu yn gynnar gyda'r prosiect yma. Mae'r uned hefyd yn bwrw ymlaen gydag adolygu eu gwasanaeth hosteli.

**4.2.8** **Darpariaeth i bobl hyn sy'n hybu annibyniaeth** - Rwyf wedi adrodd yn flaenorol fod cyfarfod wedi ei gynnal gyda Gwasanaeth Comisiynu a Chymdeithasau Tai er mwyn ddadansoddi data o ran yr ardaloedd sydd wedi eu hadnabod ac i weld pa fylchau sydd yn bodoli. Mae'r astudiaeth bellach wedi ei gwblhau gan yr uned sydd wedi adnabod 5 cymuned lle mae angen darpariaeth i bobl hyn. Serch hynny mae'r uned yn adrodd nad oes adnodd bellach i yrru'r rhaglen waith hon yn ei flaen fel bwriadwyd. Mae hyn oherwydd diffyg adnoddau o fewn yr Uned Strategol Tai ac felly mae hi'n annhebygol byddwn yn gallu adrodd yn ôl i'r Cabinet ym mis Chwefror ar opsiynau pendant i'r ardaloedd sydd wedi eu hadnabod. Mae'r angen arweiniad gan yr Adran Oedolion i benderfynu ar y lleoliadau i ganolbwyntio ar ac ar y blaenoriaethau. Mi fydd yr uned hefyd yn paratoi achos busnes i edrych ariannu adnodd ychwanegol er mwyn galluogi cynlluniau aeddfed.

### 4.3. C5 - Ymestyn y defnydd o hunanwasanaeth

4.3.1 Dros y misoedd diwethaf mae system Rheolaeth Perthynas Cwsmer (CRM) wedi ei datblygu bydd yn gallu cael ei ddefnyddio ar draws holl Wasanaethau'r Cyngor. Erbyn hyn mae'r system yn fyw gan ddarparu system swyddfa gefn ar gyfer y drefn hunan wasanaeth a chofnodi ceisiadau am wasanaeth.

4.3.2 Y broses gyntaf i ddefnyddio'r system newydd yw'r drefn o archebu casgliad gwastraff gardd. Aeth y drefn hon yn fyw ar y 24ain o Hydref 2016 a hyd y 14eg o Ragfyr roedd 6,903 o geisiadau wedi eu derbyn. Roedd **33%** (2,296) o'r rhain yn

geisiadau ar-lein, **54%** (3,724) yn geisiadau ar y ffôn, **11%** (787) yn geisiadau wyneb yn wyneb a **2%** (96)yn geisiadau drwy'r post.

4.3.3 Fel yr eglurais y tro diwethaf rwyf wedi gofyn i'r Arweinydd Prosiect wneud gwaith pellach er mwyn gallu darparu amcangyfrif o'r arbedion cychwynnol sy'n debygol o ddeillio o'r prosiect. Y gobaith yw y byddwn mewn sefyllfa i gyflwyno'r achos busnes ar gyfer cymeradwyaeth i'r Cabinet cyn diwedd mis Mawrth.

**4.4. C8 - Prosiect Llywodraethu Gwybodaeth**

4.4.1 Ers i mi adrodd ar y cynnydd diwethaf mae'r sesiynau hyfforddiant wedi parhau gyda staff yn cwblhau'r modiwl e-ddysgu. Yn ogystal, mae 164 aelod o staff wedi mynychu sesiynau briffio gan gynnwys Penaethiaid ysgolion Uwchradd a Chynradd, staff Economi a staff Cefnogaeth Gorfforaethol a bu'r adborth yn bositif.

4.4.2 Mae'r meddalwedd marciau gwarchod bellach yn gweithio gydag aelodau'r Tîm Rheoli Gwybodaeth yn ei ddefnyddio ynghyd a rhywfaint o staff o fewn Oedolion. Bydd y defnydd yn cael ei ehangu ymhellach dros y misoedd nesaf.

4.4.3 Er mwyn sefydlu'r hyn yr ydym wedi'i gyflawni hyd yma, rwyf wedi gofyn i'r Arweinydd Prosiect i asesu priodoldeb ein trefniadau diogelu gwybodaeth ac i adrodd yn ôl i mi ar le'r ydym wedi ei gyrraedd ar y daith. Byddaf yn eich diweddaru o'r canfyddiadau yn fy adroddiad nesaf.

**5. MESUR PERFFORMIAD**

5.1. Ar y cyfan rwy'n hapus gyda pherfformiad y maes Tai ac fel yr ydych yn ymwybodol, dros y misoedd diwethaf, mae'r Unedau'r Gwasanaeth Tai wedi bod yn ystyried eu pwrpas o safbwynt trigolion Gwynedd a sut felly dylid mesur eu perfformiad.

5.2 Mae'r **Uned Ddigartrefedd** wedi gosod eu pwrpas ac wedi sefydlu dau brif fesur. Mae dirywiad wedi bod o ran y dyddiau mae'n **cymryd i gyflawni'r hyn sy'n bwysig** (78 diwrnod eleni o gymharu â 69 yn 2015/16) a'r **cyfnod a dreulir mewn llety dros dro** (131 diwrnod eleni o gymharu â 126 yn 2015/16).

5.3 Fel adroddwyd yn yr adroddiad diwethaf, credir fod cyfuniad o resymau am y dirywiad mewn perfformiad megis y ffaith fod rhai unigolion, sy'n anodd eu lletya am amryw resymau, yn parhau mewn llety dros dro ers cyfnodau hir ac yn gwthio'r cyfartaledd yn uwch. Yn ogystal â hyn mae newidiadau deddfwriaethol diweddar, newidiadau mewn budd-daliadau lles a salwch staff yn cyfrannu.

5.4 Mae gwaith yn mynd rhagddo er mwyn ceisio ymateb i hyn, megis y galw am sefydlu Cronfa Atal Ddigartrefedd barhaol i gyfarch yr angen cynyddol a'r cyfrifoldebau statudol newydd yn sgil Deddf Tai Cymru 2014 ddaeth i rym yn Ebrill 2015 .

5.5 Mae nifer cyfeiriadau i'r Uned wedi cynyddu yn sylweddol - 560 yn 2014/15, 648 yn 2015/16 a 379 hyd yn hyn eleni (ond rhagwelir 794 erbyn diwedd y flwyddyn pe byddai tuedd eleni yn parhau). Er bod hyn yn duedd Cenedlaethol, rwyf wedi gofyn i'r uned adnabod tuedd penodol Gwynedd. Bydd angen cymryd camau i ddeall natur yr anawsterau ac anghenion y cyfeiriadau cynyddol i'r uned er

mwyn cynllunio i gyfarch eu hanghenion yn well. Byddaf yn eich diweddaru o unrhyw ddatblygiadau yn fy adroddiadau perfformiad yn y dyfodol.

5.6 Mae'r **Uned Cefnogi Pobl** wedi cyflwyno mesurau a data y maent o'r farn sy'n mesur eu pwrpas fel Uned. Rydym yn disgwyl cadarnhad os mai rhain yw'r mesurau terfynol i ychwanegu i'r rhestr mesurau perfformiad. Rwy'n hapus gyda pherfformiad yr uned ar y cyfan ond rwyf yn argymell i'r uned ceisio adnabod a deall y rhwystrau ac anghenion cefnogaeth y 25% o unigolion na lwyddwyd i gyfarch eu hanghenion ac yna rhoi camau yn eu lle i ymateb. Rwy'n argymell i'r uned Cefnogi Pobl a'r Uned Ddigartrefedd ystyried cyd weithio ar y dasg proffilio natur y cyfeiriadau i adnabod y rhwystrau ac yr anghenion dwys a chynyddol sydd yn cael eu hadrodd gan y ddwy Uned, megis problemau Iechyd Meddwl, er mwyn cynllunio gwasanaethau i gyfarch eu hanghenion yn well.

5.7 Mae'r **Uned Grantiau a Gorfodaeth** wedi cyflwyno mesurau perfformiad sydd yn eu barn yn mesur eu pwrpas. Un enghraifft o'r mesurau sy'n cael eu hystyried yw canran o'r peryglon difrifol a pheryglon diffygiol wedi eu gwella i lefel derbyniol trwy orfodaeth mewn cartrefi wedi eu rhentu. Mae perfformiad y mesur hwn ar hyn o bryd yn 94%. Mae cais wedi ei wneud i'r uned ail edrych ar eu mesuriadau er mwyn sicrhau ein bod yn mesur y pethau cywir. Credaf fod angen gwahanu'r mesur **nifer o ddiwrnodau a gymerwyd i roi grant Cyfleusterau Anabl** i achosion cymhleth a rhai mwy syml er mwyn sicrhau darlun cliriach o beth sydd yn cael ei gyflawni.

5.8 Rwy'n falch o adrodd fod perfformiad o ran y mesur **'Strat6' Nifer o unedau fforddiadwy a sicrhawyd i Wynedd** yn perfformio yn foddhaol. Rhagwelir cyfanswm o 35 uned erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Er bod hyn yn is na'r targed o 56, rhagwelir bydd 12 uned yn agor ym Mis Ebrill, sydd tu allan i'r amserlen. Yn ogystal mae modd cwrdd â'r targed ond mae hyn yn ddibynnol ar y niferoedd o dai gwag ellir yr uned Grantiau a Gorfodaeth ddod yn ôl i ddefnydd.

5.9 Yn gyffredinol rwy'n hapus gyda pherfformiad mwyafrif mesurau'r unedau Gofal Cwsmer (Galw Gwynedd a Siopau Gwynedd, Cofrestru, Gwybodaeth a Thîm y Wê). Mae gennyf rywfaint o bryder ynghylch perfformiad cwpl o fesurau Galw Gwynedd ond camau wedi eu rhoi yn eu lle er mwyn ceisio adfer y sefyllfa.

5.10 Mae'r **Gwasanaeth Rheoli Gwybodaeth** yn gyfrifol am sicrhau fod gennym drefniadau cadarn yn eu lle er mwyn diogelu data a gwybodaeth. Nid oes unrhyw ddigwyddiad ychwanegol wedi ei gofnodi ar gyfer y mesur **Nifer digwyddiadau gwybodaeth (ers 1af Ebrill)** ers y cyfarfod diwethaf felly ar hyn o bryd fe saif ar 3 digwyddiad. Mae hyn yn cymharu hefo 6 ar gyfer yr un cyfnod yn 2015/16 a 7 yn 2014/15.

5.11 Mae gwefan y Cyngor yn adnodd pwysig sy'n galluogi'r cyhoedd i ganfod gwybodaeth a hunan wasanaethu. Dengys y wybodaeth ddiweddaraf gan **Dîm y Wê** fod **% defnyddwyr sy'n adrodd eu bod anfodlon/anfodlon iawn** a'r **% sydd ddim wedi canfod yr hyn yr oeddent yn chwilio amdano** yn isel a'i fod wedi parhau yn gyson ers dechrau mis Ebrill.

5.12 Mae **Unedau Galw Gwynedd a Siopau Gwynedd** yn edrych i roi cymorth prydlon a chywir i gwsmeriaid i gael mynediad at wasanaethau'r Cyngor drwy ddarparu atebion, arweiniad a gwasanaeth. Nodir bod cynnydd wedi bod yn y **Cyfartaledd ateb ffôn Galw Gwynedd (CYSCW01)** i 1.10 munud o'i gymharu â

0.42 munud yn 2015-16 a hefyd yn y **Canran y galwadau sydd ddim yn cael eu hateb gan Alw Gwynedd (CYSCW04)** hefyd wedi cynyddu i 15.16% o'i gymharu â 7.5% ar gyfer 2015-16.

5.13 Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y nifer o alwadau y mae Galw Gwynedd yn ymdrin â hwy gyda 29,862 yn fwy o alwadau wedi eu derbyn rhwng Ebrill-Tachwedd 2016 o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2015. Fel y nodais yn fy adroddiad diwethaf mae'r newidiadau i'r trefniadau bin gardd hefyd wedi arwain at gynnydd sylweddol yng ngwaith yr Unedau dan sylw ers diwedd Hydref trwy ymateb i ymholiadau a chymryd taliadau.

5.14 Mae gwaith yn mynd rhagddo i osgoi galwadau diangen i Galw Gwynedd ac o ddechrau Chwefror ymlaen bydd rhifau estyniadau swyddogion yn cael eu harddangos ar ffônau yn hytrach na rhif Galw Gwynedd (01766 77000). Rwyf hefyd wedi gofyn i Reolwr yr Uned i edrych ar opsiynau ar gyfer dod a'r ffigwr yn ôl i lawr gan gynnwys dod a swyddogion ychwanegol i mewn dros dro i ateb y ffôn. Byddaf yn eich diweddaru ar y sefyllfa ddiweddaraf yn yr adroddiad nesaf.

5.15 Pwrpas yr **Uned Gofrestru** yw galluogi'r cyhoedd i gofrestru digwyddiadau yn unol â gofynion y ddeddf a darparu gwasanaeth copïau tystysgrif. Nodir fod perfformiad y mesurau wedi eu cynnal neu wella yn y cyfnod dan sylw o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ond er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa rwyf wedi gofyn iddynt amlinellu'r rhesymau pam nad yw perfformiad yn 100%. Rwyf hefyd wedi awgrymu y dylid mesur **Canran bodlonrwydd sy'n graddio'r gwasanaeth Cofrestru Genedigaeth, Marwolaeth a Phriodasau yn dda neu well (DCCof04)** ar y pwynt cyswllt yn hytrach nac yn flynyddol.

5.16 Mae'r **Gwasanaeth Llyfrgelloedd** a Gwybodaeth yn gweithredu Strategaeth Mwy na Llyfrau ers mis Medi 2016. Mae trefniadau Penygroes bellach wedi'u cadarnhau, ac mae'r ymgynghori a'r rhybudd addasu oriau agor y Prif Lyfrgelloedd yn weithredol ers mis Ionawr. Cynhaliwyd Arolwg Defnyddwyr Llyfrgelloedd ym mis Hydref 2016 a disgwylir y dadansoddiad o'r atebion i'r holiadur gan CIPFA erbyn mis Chwefror. Mae'r Gwasanaeth yn adrodd eu mesurau yn flynyddol. Rwyf wedi pwyso ar y Gwasanaeth i adrodd yn fwy rheolaidd.

## 6. MATERION ERAILL

6.1 **Cydraddoldeb -** Fel yr ydych yn ymwybodol mae gwaith wedi mynd yn ei flaen ond bu rhywfaint o oedi yn gweithredu'r rhaglen waith sydd ynghlwm â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol oherwydd salwch aelod allweddol o staff. O ganlyniad, rwyf wedi gofyn i'r swyddogion perthnasol ail edrych ar y rhaglen waith ynghlwm ag **Amcan 1: Gwella ein trefniadau i ganfod a defnyddio barn pobl sy'n rhannu nodweddion cydraddoldeb** ac **Amcan 2: Gwella ein trefniadau asesu effaith cydraddoldeb** gan gyflwyno rhaglen waith diwygiedig ar gyfer cyflawni i'r cyfarfod herio perfformiad nesaf. Byddaf yn eich diweddaru o unrhyw ddatblygiadau yn fy adroddiad perfformiad nesaf.

6.2 Rwy'n falch o adrodd ar lwyddiant **Amcan 3: Creu'r amgylchiadau i bobl o wahanol gefndiroedd i gynrychioli pobl Gwynedd trwy sefyll etholiad i fod yn aelod etholedig**. Fel rhan o'r prosiect Hybu Amrywiaeth mewn Democratiaeth, lansiwyd ail fideo ym mis Medi oedd yn rhoi gwybodaeth am wasanaethau'r Cyngor. Ym mis Tachwedd dosbarthwyd llythyr at yr holl glercod Cynghorau Cymuned yn codi ymwybyddiaeth am y prosiect. Ym mis Rhagfyr rhoddwyd

cyflwyniadau i Bwyllgor/Fforymau Ardal ar drefniadau etholiadau Llywodraeth Leol 2017. Yn ogystal ym mis Ionawr cynhaliwyd 3 sesiwn codi ymwybyddiaeth yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau ar gyfer pobl oedd â diddordeb yn bod yn Gynghorydd. Hyd yma mae 84 unigolyn wedi llenwi holiadur yn nodi os oes rhywbeth yn eu rhwystro rhag symud ymlaen i sefyll mewn etholiad. Cynhelir cyfarfod nesaf o'r Is-grŵp Amrywiaeth Mewn Democratiaeth ar 31 Ionawr ble disgwylir diweddariad gan Yr Uned Cyfathrebu am y ffigyrau gwylio'r fideo.

6.3 **Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr** - Rydym wedi cyflwyno asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr ar y cyd gyda Chyngor Ynys Môn ac rwy'n falch o adrodd ein bod wedi derbyn cadarnhad gan Lywodraeth Cymru bod yr asesiad wedi ei gymeradwyo.

## 7. SEFYLLFA ARBEDION/ARIANNOL

7.1 Yn gyffredinol, does dim pryder wedi ei ddatgan yn hanesyddol o ran gallu'r Adran i wireddu'r arbedion effeithlonrwydd na'r toriadau yn y maes Tai. Fodd bynnag, credir y bydd yr adroddiad ar drydydd chwarter y gyllideb refeniw 2016/17 yn awgrymu y bydd arbedion o ddau gynllun yn llithro.

7.2 O ran 2017/18, mae ychydig o bryder parthed y gallu i wireddu sawl cynllun fel oedd wedi ei ragweld yn wreiddiol. Er bod gwaith ar y gweill i sicrhau cynnydd gyda'r oll o'r cynlluniau, mae angen dwyn mewn cof nad oes ond 3 mis hyd at gychwyn y flwyddyn ariannol 2017/18 pryd y bydd y cyllidebau yn cael eu torri.

7.3 O ganlyniad, mae'n amlwg bod her wedi ei amlygu yn ddiweddar o ran y gallu i wireddu'r arbedion fel ag yr oedd wedi ei ragweld. I'r perwyl rwyf wedi gofyn i'r adran edrych ar hyn i sicrhau bod cynlluniau amgen mewn lle.

## 8. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

8.1. Dim i'w nodi.

## 9. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

**9.1. Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Prif Weithredwr**

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at nifer o faterion o bwys. Mae cynnydd gyda tai fforddiadwy, eiddo gwag a darpariaeth ar gyfer y digartref yn faterion o'r pwys mwyaf i drigolion ac mae'n dda gweld ffocws gan yr Aelod Cabinet ar y materion hyn. Hefyd, yn y maes Gofal Cwsmer, rwy'n gwybod y cafwyd trafodaethau cadarnhaol iawn yn ddiweddar yn y Pwyllgor Craffu Corfforaethol ar y gwelliannau sydd ar y gweill ynglŷn â'r Prosiect Hunan-wasanaeth a threfniadau ateb ffôn y Cyngor.

**ii. Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb

**iii. Y Pennaeth Cyllid:**

Cyflwynir unrhyw sylwadau, fel bo angen, ar lafar yng nghyfarfod y Cabinet.

**9.2 Barn yr Aelod Lleol:**

9.2.1 Dim yn fater lleol.

**9.3. Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

9.3.1 Dim i'w nodi.

---

**Atodiadau:**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Mesurau Perfformiad |